

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Y broses ddynodi

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm sydd am wybod mwy am y broses o ddynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Diweddarwyd 3 Mawrth 2016

Y broses ddynodi

CPE Ar-lein
EUR2

Cynnwys:

Sut y dynodir ymgyrchwyr arweiniol

Y profion statudol

Y cyfnod dynodi a'r prosesau

Sut i wneud cais i fod yn grŵp ymgyrchu arweiniol

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol mewn modd sy'n effeithiol, cymesur a theg. Rydym wedi ymrwmo i roi dealltwriaeth glir o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor. Os nad ydych yn siŵr o sut mae'r rheolau hyn yn berthnasol i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances

2

Y broses ddynodi

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y broses ar gyfer dynodi grwpiau prif ymgyrchydd yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- Buddiannau grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig
- Sut y dynodir grwpiau ymgyrchu arweiniol
- Y profion statudol
- Y cyfnod dynodi a'r prosesau
- Sut i wneud cais i fod yn grŵp ymgyrchu arweiniol

Dogfennau cysylltiedig:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

Ffurflenni ac esboniadau:

- [Ffurflen EUR1 – Cais i gofrestru fel ymgyrchydd mewn refferendwm](#)
- [Ffurflen EUR2 – Cais am statws grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig](#)

Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 (y Ddeddf), gall y Comisiwn Etholiadol benodi grwpiau ymgyrchu arweiniol ar gyfer pob ochr mewn ymgyrch refferendwm neu ar gyfer un ochr yn unig.

Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu egwyddorion y broses ddynodi ac yn rhoi trosolwg o'r broses o wneud penderfyniad dynodi.

4

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Beth yw grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig?

Yn ystod y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, gall ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig wneud cais i fod yn grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig.

Gall un grŵp ymgyrchu arweiniol gynrychioli pob ochr o ddadl y refferendwm. Y grŵp hwn fydd y grŵp ymgyrchu arweiniol ar ran y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Croesawn bob cais, gan gynnwys rhai gan sefydliadau ambarél a ffurfiwyd gan grwpiau ymgyrchu sy'n cydweithio.

O dan ein rôl statudol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y grwpiau ymgyrchu arweiniol yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros bob canlyniad yn ddigonol. Gallwn ddynodi grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y ddau ganlyniad mewn refferendwm neu ar gyfer un canlyniad, neu gallwn benderfynu peidio â dynodi grŵp ar gyfer canlyniad os na fydd yn bodloni'r prawf statudol.

Gweler y canllawiau canlynol am ragor o wybodaeth:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Buddiannau grwpiau ymgyrchu arweiniol

Mae gan grwpiau ymgyrchu arweiniol fuddiannau penodol sy'n ychwanegol at y rhai a roddir i ymgyrchwyr cofrestredig. Ymhlith y rhain mae:

- terfyn gwario uwch, sef £7 miliwn
- dosbarthu eu gwybodaeth am ddim i bleidleiswyr unwaith
- defnyddio ystafelloedd cyhoeddus penodol
- darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm
- grant gwerth hyd at £600,000, i'w ddefnyddio ar gyfer gwariant penodol, gan gynnwys y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal ymgyrch refferendwm a'r costau sy'n gysylltiedig â'r darllediadau teledu a'r hawl i anfon gwybodaeth at bleidleiswyr am ddim a roddir iddynt fel ymgyrchwyr arweiniol.

Byddwn yn gweithio gyda'r grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig er mwyn eu helpu i fanteisio ar y buddiannau hyn.

Yn ogystal â'r buddiannau statudol, gall grwpiau ymgyrchu arweiniol gael y canlynol:

- tudalen wedi'i neilltuo iddynt yn llyfryn gwybodaeth gyhoeddus y Comisiwn, a gaiff ei ddosbarthu i bob cartref yn y DU (ar ffurf fersiynau dwyieithog ac uniaith Saesneg)
- dolen yn y llyfryn i dudalen ar wefan yr ymgyrchydd, a ddylai gynnwys ei farn ar yr hyn a fydd yn digwydd yn achos naill ganlyniad y refferendwm neu'r llall

Os caiff grŵp ymgyrchu arweiniol ei benodi ar un ochr o'r refferendwm yn unig, **ni** fydd yr ymgyrchydd hwnnw'n cael y grant gwerth hyd at £600,000, y darllediadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm, y cynnwys yn llyfryn ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn na'r ddolen yn y llyfryn i wefan yr ymgyrchydd.

6

Mae'n rhaid anfon tudalen i'r llyfryn, cyfeiriad gwe a chynnwys y wefan gyda'ch ffurflen gais erbyn 31 Mawrth. Mae angen darparu y cynnwys yn y fformat a bennir felly darllenwch y [cyfarwyddiadau](#).

Nid yw hyn yn rhan o'r broses o wneud cais ac ni fydd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth edrych ar geisiadau.

Cyfrifoldebau grwpiau ymgyrchu arweiniol

Rhaid i grwpiau ymgyrchu arweiniol ddilyn yr un rheolau â phob ymgyrchydd cofrestredig. Hefyd, bydd unrhyw wariant yr eir iddo wrth weithio gydag ymgyrchydd nad yw'n ymgyrchydd arweiniol yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgyrchydd arweiniol yn unig.

Gweler y canllawiau canlynol am ragor o wybodaeth:

- [Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)
- [Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Sut y dynodir grwpiau ymgyrchu arweiniol?

O dan PPERA, ni sy'n dynodi ymgyrchwyr arweiniol. Rhaid i ni ddefnyddio profion statudol penodol wrth ddynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol yn y cyfnod cyn Refferendwm yr UE.

Gall pob ymgyrchydd cofrestredig wneud cais i ni am gael bod yn grŵp ymgyrchu arweiniol. Byddwn yn asesu ymgyrchwyr ar sail y profion statudol. Y profion yw:

- os mai dim ond un ymgeisydd sydd ar gyfer canlyniad, bydd y Comisiwn yn dynodi ymgeisydd heblaw nad yw'n fodlon bod yr ymgeisydd yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw yn ddigonol
- os oes mwy nag un ymgeisydd ar gyfer canlyniad, bydd y Comisiwn yn dynodi'r ymgeisydd sydd, yn ei farn ef, yn cynrychioli orau y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw

Gallwn ddynodi ymgeisydd ar gyfer un ochr o'r ddadl yn unig, neu beidio â dynodi ymgeisydd ar gyfer y naill ochr na'r llall, os na chawn ymgeiswyr ar gyfer canlyniad neu os na fyddwn yn fodlon bod unrhyw rai o'r ymgeiswyr yn cynrychioli'r rhai sy'n cefnogi canlyniad penodol yn ddigonol.


I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch wneud cais i fod yn grŵp ymgyrchu arweiniol, gweler tudalen 12.

8

Sut rydym yn defnyddio'r profion statudol?

Rydym wedi datblygu proses benderfynu tri cham ar gyfer grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig, fel y gwelir isod. Mae hyn yn ein helpu i wneud penderfyniad yn unol â'r profion statudol.

Y broses benderfynu tri cham



Y cyfnod dynodi

Y cyfnod dynodi yw'r cyfnod pan fyddwn yn cael ceisiadau ac yn gwneud y penderfyniad dynodi, a'r cyfnod ymgyrchu terfynol hyd at y diwrnod pleidleisio.

Mae'r siart isod yn dangos trosolwg o dri cham gwahanol y cyfnod dynodi. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod gwneud cais, cyfnod dynodi a chyfnod ymgyrchu terfynol cyn y bleidlais.

Darpariaethau cofrestru yn y Ddeddf yn dod i rym	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Diwrnod pleidleisio 23 Mehefin 2016
Gall ymgyrchwyr gofrestru â ni	Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn sefydliadau dynodedig	Bydd y comisiwn yn gwneud penderfyniad dynodi	Gall sefydliadau dynodedig ddefnyddio eu buddiannau ymgyrchwyr arweiniol	
1 Chwefror	4 Mawrth – 31 Mawrth	1 Ebrill – 14 Ebrill	15 Ebrill 2016	

Cam 1 yw'r cyfnod pan all ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i fod yn ymgyrchwyr arweiniol dynodedig. Mae'n rhedeg o'r 4 – 31 Mawrth 2016.


Bydd Cam 2 yn dechrau ar ôl y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais ar 1 Ebrill ac yn rhedeg tan 14 Ebrill 2016. Os mai dim ond un ymgeisydd sydd ar gyfer canlyniad a'i fod yn bodloni'r prawf statudol, caiff ei benodi. Os oes mwy nag un ymgeisydd ar gyfer un ochr o ganlyniad y refferendwm, byddwn yn asesu pa ymgeisydd sy'n cynrychioli orau y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw. Gallwn benderfynu gofyn am fwy o dystiolaeth gan ymgeiswyr, yn cynnwys cyfweiliad. Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd am ein penderfyniad.

Cam 3 yw'r cyfnod pan gaiff yr ymgyrchwyr arweiniol eu dynodi a phan fydd ganddynt hawl i ddefnyddio buddiannau'r ymgyrchwyr arweiniol, a bydd y cyfnod hwn yn para tan y diwrnod pleidleisio. Mae'n rhedeg o'r 15 Ebrill tan 23 Mehefin 2016.

10

Trosolwg o'r broses benderfynu ynghylch dynodi – cam 2

Yn ystod cam 2 o'r cyfnod dynodi, byddwn yn adolygu ceisiadau ymgyrchwyr ar sail y profion statudol.



Sut mae gwneud cais i fod yn grŵp ymgyrchu arweiniol?

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais i fod yn grŵp ymgyrchu arweiniol yma: [EUR2 - Cais ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu yn refferendwm yr UE](#). Byddwn hefyd wedi cyhoeddi [gwybodaeth](#) fanwl am sut y byddwn yn asesu ymgeiswyr ar sail y prawf statudol. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ochr yn ochr â'r ffurflen gais.

Bydd y broses o wneud cais yn gofyn am wybodaeth i asesu a yw ymgyrchwyr yn bodloni'r prawf statudol, gan gynnwys gwybodaeth yn y meysydd canlynol:

- amcanion eich sefydliad a sut y maent yn cyd-fynd â chanlyniad y refferendwm rydych yn ei gefnogi
 - maint y gefnogaeth ymhlith ymgyrchwyr dros benodi'r ymgyrchydd arweiniol. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi gynnwys manylion a datganiadau am y rhai sy'n cefnogi eich cais
 - sut rydych yn bwriadu cynrychioli ymgyrchwyr eraill dros yr un canlyniad, gan gynnwys sut y byddech yn ymgysylltu â hwy
 - sut rydych yn bwriadu cyfleu neges eich ymgyrch i bleidleiswyr ledled y DU a Gibraltar, gan gynnwys sut y byddwch yn defnyddio buddiannau'r grŵp ymgyrchu arweiniol. Efallai yr hoffech ystyried sut y byddwch yn cyfathrebu â gwahanol grwpiau o bleidleiswyr, megis gwahanol grwpiau oedran (gan gynnwys pleidleiswyr ifanc), pleidleiswyr ag anableddau, cymunedau ethnig a'r rhai nad ydynt yn defnyddio Saesneg fel iaith gyntaf.
-

12

- sut rydych yn bwriadu cyflawni amcanion eich ymgyrch, gan gynnwys sut rydych yn bwriadu ariannu eich ymgyrch a sut y byddwch yn defnyddio'r terfyn gwario uwch a'r arian sydd ar gael i'r cyhoedd

Mi ddylai'r ffurflen gais darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn ffordd mor gryno ag y bo modd. Er bod tudalennau ychwanegol ar gael, mae'n annhebyg y bydd angen defnyddio llawer o'r tudalennau ychwanegol yma mewn ymateb ysgrifenedig i bob maen prawf er mwyn darparu digon o wybodaeth i gefnogi eich cais am ddynodiad.

Yn ogystal â'r ffurflen gais, dylech gynnwys tystiolaeth i gefnogi eich cais. Dylai'r holl dystiolaeth fod ynghlwm ac yn amlwg yn eich cais.

Pan fyddwn wedi gwneud ein penderfyniad, byddwn yn cyhoeddi pob cais, er mwyn tryloywder. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol na gwybodaeth am gynllun na strategaeth eich ymgyrch.

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni yn:
pef@electoralcommission.org.uk
